Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 27 Tachwedd 2008

Teitl: Cyngor Cyllido yn croesawu adroddiad Merfyn Jones

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi croesawu'r adroddiad ar gam 1 o adolygiad Jones a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r datganiad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 25 Tachwedd.

Cefnodd CCAUC y pwyslais ar yr angen am system cyllido myfyrwyr yng Nghymru sy'n deg ond sydd wedi'i thargedu fwy i sicrhau cymorth ar gyfer y rheiny sydd ei angen fwyaf.

Mae'r corff, sy'n gweinyddu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru, hefyd wedi croesawu'r sylw sy'n cael ei roi i'r angen i fuddsoddi yn ansawdd profiad yr holl fyfyrwyr, boed drwy gyfleusterau rhagorol ar gyfer dysgu ac addysgu i bawb neu drwy gymorth ariannol i fyfyrwyr unigol.

Roedd barn gadarn yr adroddiad bod buddsoddi mewn addysg uwch o fudd i economi, cymdeithas a diwylliant Cymru gyfan hefyd yn cael ei hategu gan CCAUC.

Meddai prif weithredwr CCAUC, yr Athro Philip Gummett: “Mae’r adroddiad yn nodi nad oes unrhyw gymdeithas fodern nad yw’n ystyried bod sector AU ag adnoddau digonol yn allweddol i’w ffyniant a’i dyfodol, ac mae hyn yn cefnogi’r ddadl dros fuddsoddi’n ddoeth ac amserol mewn addysg uwch.

“Er mwyn cyflawni’r uchelgeisiau yn *Cymru’n Un* ar gyfer economi a chymdeithas Cymru, mae’n hanfodol i ni wneud buddsoddiad digonol yn awr yn sgiliau a gwaith ymchwil ein prifysgolion a’u potensial ar gyfer arloesedd, er mwyn adeiladu ar gyfer twf y tu hwnt i’r anawsterau economaidd presennol. Rydym felly’n croesawu’n gryf fwriad y Gweinidog, yn amodol ar ymgynghori, i fuddsoddi o leiaf £30m yn ychwanegol bob blwyddyn mewn adnewyddu addysg uwch yng Nghymru.”

Nodiadau:

1. Cysylltiadau ar gyfer gwybodaeth bellach

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

2. CCAUC

Corff sy’n cael ei Noddi gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy’n gyfrifol am weinyddu cyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trefnu ei fod ar gael i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a gynhelir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac yn comisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â chyfrifoldebau cyllid, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllid, uchelgeisiau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.